Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Presgripsiynu Cymdeithasol

## Canllaw hawdd ei ddeall ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol





Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o 'F**framwaith Cenedlaethol ar gyfer Presgripsiynu Cymdeithasol**'.

**Rhagfyr 2023**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 16**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:**
www.llyw.cymru/fframwaith-cenedlaethol-ar-gyfer-presgripsiynu-cymdeithasol

**E-bost:**
fframwaithcenedlaetholpresgripsiynucymdeithasol@llyw.cymru

**Cyfeiriad:** Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer
Presgripsiynu Cymdeithasol
Anghydraddoldebau Iechyd a
Chymunedau Iach
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Mae **Hawdd ei Ddeall Cymru** wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols_403527247

# Cynnwys

**Beth ydy presgripsiynu cymdeithasol?** ........................................ **4**

**Y Fframwaith** ........................................................................ **10**

**Beth fyddwn ni'n ei wneud** ........................................................ **12**

**Geiriau anodd** ....................................................................... **16**

# Beth ydy presgripsiynu cymdeithasol?



Mae **presgripsiynu cymdeithasol** yn helpu i gysylltu pobl â grwpiau a gwasanaethau yn y gymuned. Mae'n ffordd i'w helpu i reoli eu hiechyd a'u **llesiant**.



Mae **llesiant** yn ymwneud â'ch iechyd corfforol a meddyliol ac ansawdd eich bywyd. Mae'n meddwl bod yn hapus, yn iach ac yn gyfforddus gyda'ch bywyd a beth rydych chi'n ei wneud.



Mae'n meddwl cysylltu pobl gyda chefnogaeth a gwasanaethau yn y gymuned sydd yn gallu eu helpu.



Mae rhai adroddiadau'n dangos bod angen i bobl sy'n defnyddio **presgripsiynu cymdeithasol** weld eu meddyg teulu neu fynd i'r ysbyty yn llai aml.



Efallai y bydd angen lefelau gwahanol o gefnogaeth ar bobl drwy gydol eu bywydau i gefnogi eu hiechyd a'u **llesiant**.



Mae **presgripsiynu cymdeithasol** yn ffordd o helpu pobl i gael y cymorth maen nhw ei angen. A dod o hyd i lawer o ffyrdd i wella eu hiechyd a'u **llesiant**.

Mae'n gallu helpu gyda llawer o bethau gwahanol ym mywyd rhywun. Er enghraifft:



- Lleihau unigrwydd




- Gwella iechyd corfforol




- Delio â dyled



- Llawer o bethau eraill. Mae'n dibynnu ar bob person a beth maen nhw ei angen.



Mae **presgripsiynu cymdeithasol** yng Nghymru yn amrywio o ardal i ardal. Mae wedi bod o gwmpas ers peth amser ac mae wedi tyfu. Dydy e ddim yn rhywbeth newydd.



Mae gan rai ardaloedd cynghorau lleol lawer o wasanaethau, ac ychydig o wasanaethau sydd mewn ardaloedd eraill.



Mae llawer o'r sefydliadau sy'n defnyddio **presgripsiynu cymdeithasol** yn sefydliadau trydydd sector. Mae hyn yn meddwl eu bod nhw yn elusen neu'n grŵp cymunedol.



Mae cynghorau lleol, rhai gwasanaethau iechyd a gwasanaethau addysg hefyd yn darparu gwasanaethau **presgripsiynu cymdeithasol** .



Mae **ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol** yn berson sy'n helpu pobl sydd â **phresgripsiynu cymdeithasol** fel rhan o'u swydd.



Weithiau maen nhw'n cael eu galw'n bethau eraill. Er enghraifft:

- cysylltydd cymunedol
- gweithiwr Cyswllt
- cydlynydd Cymunedol
- cynghorydd Llesiant




Fe fydd yr **ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol** yn siarad â chi am y pethau rydych chi angen cymorth gyda nhw. Dydyn nhw ddim yn delio â materion meddygol.



Yna fe fyddwn ni yn gweithio gyda chi i wneud cynllun. Mae hyn yn cael ei alw yn yn **gynllun gweithredu**.



Mae'r **ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol** yno i weithio gyda chi, dim i ddweud wrthych chi beth sy'n rhaid i chi ei wneud.




Fe fydd yr **ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol** yn eich cysylltu â grwpiau a gwasanaethau sydd yn gallu helpu i wella eich iechyd a'ch **llesiant.** Efallai y byddan nhw'n mynd gyda chi pan fyddwch chi'n dechrau gweithgaredd newydd.

Er enghraifft:









- Ymuno â grŵp sy'n treulio amser y tu allan.
- Gwneud rhywbeth creadigol
- Dysgu rhywbeth newydd
- Bod yn weithgar
- Helpu eraill drwy wirfoddoli
- Gwneud gweithgaredd ymlaciol
- Neu lawer o bethau eraill.




Er enghraifft, cael cymorth gyda budd-daliadau lles. Efallai eu bod yn achosi straen i rywun. Neu lawer o bethau eraill, fel colli rhywun annwyl.




Fe fydd y cymorth sydd ei angen yn amrywio o un person i'r llall.

# Y Fframwaith




Gan fod **presgripsiynu cymdeithasol** yn cael ei wneud yn wahanol ar draws Cymru, roedden ni'n meddwl bod angen canllawiau.




Dyna bwrpas y **Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Presgripsiynu Cymdeithasol** .



Fe fydd yn helpu i wneud yn siŵr bod sefydliadau'n gweithio yn yr un ffordd. Ac fe fydd yn gwneud yn siŵr bod yr un termau yn cael eu defnyddio i ddisgrifio pethau.



Fe fydd yn helpu i wneud yn siŵr bod **presgripsiynu cymdeithaso**l o ansawdd uchel.



Fe fydd hefyd yn helpu i swneud yn siŵr bod modd edrych ar, a gwella **presgripsiynu cymdeithasol** os oes angen.

Fe fydd y Fframwaith hefyd yn helpu i swneud yn siŵr bod y materion yma yn cael eu trafod:



- pobl yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal



- mae pob oedran yn cael cefnogaeth gan gynnwys plant a phobl ifanc




- mae presgripsiynu cymdeithasol ar gael yn Gymraeg




- mae gan yr **ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol** y sgiliau cywir.

# Beth fyddwn ni'n ei wneud

Drwy gael **Fframwaith Presgripsiynu Cymdeithasol Cenedlaethol** fe fyddwn ni yn gwneud y pethau yma:



**1. Fe fyddwn ni yn gwella dealltwriaeth i bawb sy'n gysylltiedig. Mae hyn yn meddwl:**



- Gwneud fideo am **bresgripsiynu cymdeithasol**



Hawdd ei Ddeall

Geiriau a Thermau sydd yn cael eu defnyddio mewn Presgripsiynu Cymdeithasol

Canllaw hawdd ei ddeall i eiriau a thermau anodd

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o '**Geirfa termau ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol yng Nghymru**'. Mae wedi cael ei wneud gan Brifysgol De Cymru, Ysgol Ymchwil Presgripsiynu Cymdeithasol Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

- Gwneud rhestr o dermau. Mae hyn yn meddwl cael rhestr o dermau fel bod pawb yn gallu defnyddio'r un rhai.



- Ysgrifennu astudiaethau achos. Mae'n stori am brofiad rhywun. Mae pobl yn gallu dysgu mwy am sut mae presgripsiynu cymdeithasol wedi gweithio.




**2. Gwneud yn siŵr bod gan bobl sy'n gweithio yn y maes presgripsiynu cymdeithasol wybodaeth a sgiliau da.**



Fe fyddwn ni yn gwneud yn siŵr bod hyfforddiant ar gael i helpu i wneud yn siŵr bod gan staff y sgiliau cywir.



**3. Safonau ansawdd.**



Fe fyddwn ni yn rhoi safonau at ei gilydd er mwyn i sefydliadau cymunedol eu dilyn. Er enghraifft, sefydliad sy'n darparu gweithgaredd.





**4. Fe fyddwn ni yn rhoi safonau at ei gilydd ar gyfer staff sy'n gweithio yn y maes presgripsiynu cymdeithasol ar gyfer cofnodi gwybodaeth.**



Fe fyddwn ni yn defnyddio hwn i weld pa mor dda y mae **presgripsiynu cymdeithasol** yn gweithio. Rydyn ni'n gallu dysgu o beth maen nhw wedi'i ddarganfod.



**5. Gwella canlyniadau.**




Mae hyn yn meddwl y byddwn ni yn gosod amcanion. Fe fyddan nhw yn helpu i ddangos beth sydd yn gallu cael ei gyflawni trwy **bresgripsiynu cymdeithasol**.




Fe fyddwn ni yn gwneud y gwaith yma erbyn haf 2024.



Rydyn ni wedi sefydlu grŵp i wneud yn siŵr bod y gwaith yma yn digwydd. Mae'n cael ei alw yn **Fwrdd Partneriaeth Llesiant**.



Fe fydd angen i ardaloedd lleol roi adborth ar y gwaith. Fe fydd hyn yn ein helpu i ddarganfod sut mae pethau'n mynd. Ac os oes angen newidiadau.

# Geiriau anodd

## Llesiant

Mae hyn yn ymwneud â'ch iechyd corfforol a meddyliol ac ansawdd eich bywyd. Mae'n meddwl bod yn hapus, yn iach ac yn gyfforddus gyda'ch bywyd a beth rydych chi'n ei wneud.

## Presgripsiynu cymdeithasol

Mae hwn yn fath o gymorth i helpu pobl i reoli eu hiechyd a'u llesiant.

## Ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol

Dyma berson sy'n cefnogi rhywun sydd â phresgripsiynu cymdeithasol fel rhan o'u swydd.